# Swyddog Gosod ac Ymchwilio

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

---

| | |
|---|---|
| **Teitl swydd:** | Swyddog Gosod ac Ymchwilio |
| **Math o gontract:** | Parhaol |
| **Oriau Gwaith:** | Llawn amser, 37 awr yr wythnos |
| **Cyflog:** | £37,112 - £45,379 y flwyddyn. Penodir ar waelod y raddfa fel rheol |
| **Lleoliad:** | Lleolir swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Gweithredir trefniant hybrid o weithio, gyda disgwyliad clir y bydd staff yn mynychu'r swyddfa o leiaf un diwrnod yr wythnos ar ddiwrnod angori penodedig, yn unol â threfniadau'r swyddfa berthnasol. Yn ogystal, anogir staff i weithio ail ddiwrnod yn y swyddfa lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn cefnogi cydweithio, dysgu ar y cyd a chysylltiad tîm. Ystyrir hefyd yr opsiwn i fod yn Weithiwr Cartref os nad ydych yn byw o fewn pellter rhesymol o un o swyddfeydd y Comisiynydd. |

## Y swydd

Mae gennym gyfle cyffrous i berson profiadol a brwdfrydig ymgymryd â swydd Swyddog Gosod ac Ymchwilio sydd yn meddu ar sgiliau dadansoddi a drafftio penigamp.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni trwy swyddi@cyg-wlc.cymru neu 0345 6033221.

**Dyddiad cau:** **12:00, 29 Ebrill 2026**
**Dyddiad cyfweld:** **7 Mai 2026**

## Amdanom ni

### Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'n egluro beth yw rôl y Comisiynydd a'i staff. Mae'r Comisiynydd yn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau a gorfodi'r dyletswyddau hynny lle bo angen, mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i gwynion. Ymchwilir hefyd i geisiadau yn ymwneud ag ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd yn gwneud gwaith ymchwil am y Gymraeg a'i siaradwyr, gan gyhoeddi adroddiad pob pum mlynedd sy'n gynnig trosolwg cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg. Mae hefyd yn cyhoeddi canllawiau o bob math i gefnogi sefydliadau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Gwneir gwaith dylanwadu ar bolisi lle mae gwneud hynny'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach gan weithio yn y trydydd sector

a'r sector preifat. Mae'n gyfrifol am safoni enwau lleoedd ac am hyrwyddo'r cynllun Iaith Gwaith, a chynhelir ymgyrchoedd ymysg defnyddwyr y Gymraeg yn rheolaidd i roi gwybod am ein gwaith a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Caiff y Comisiynydd wneud *unrhyw beth sy'n briodol* er mwyn hybu a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Gweledigaeth hir dymor y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at gynyddu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r iaith.
Mae gan y Comisiynydd Gynllun Strategol tair blynedd sy'n gosod allan blaenoriaethau'r Comisiynydd er mwyn cyflawni'r weledigaeth: Cynllun Strategol.

Cyflawnir hyn oll er mwyn gwireddu'r egwyddor a sefydlir gan y Mesur na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

---

# Disgrifiad swydd

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

---

**Teitl swydd:** Swyddog Gosod ac Ymchwilio
**Yn atebol i:** Uwch Swyddog Gosod ac Ymchwilio
**Graddfa:** HEO

*Yn unol ag anghenion busnes y sefydliad, fe all gofynion y swydd newid. Er enghraifft, gall fod gofyn i ddarparu cymorth a chefnogaeth i waith timoedd eraill o fewn y Gyfarwyddiaeth o bryd i'w gilydd, yn unol â llwyth gwaith.*

*Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu trafod a'u cytuno â deiliad y swydd cyn eu mabwysiadu.*

## Prif Ddyletswyddau

### Gosod Safonau'r Gymraeg

1. Bod yn gyfrifol am weithredu rhaglen ymbaratoi ar gyfer sefydliadau sydd wedi eu hadnabod fel rhai fydd yn dod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

2. Bod yn gyfrifol am osod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau. Mae hynny'n cynnwys:

   - ymgynghori ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio drafft cyn eu gosod yn derfynol
   - poblogi cofrestr hysbysiadau cydymffurfio'r Comisiynydd yn brydlon a chywir.

- ystyried a phrosesu heriau gan sefydliadau ynghylch afresymoldeb neu anghymesuredd y safonau y gosodwyd arnynt.

**Cwynion ac ymchwiliadau i fethiant i gydymffurfio â dyletswyddau iaith[1]**

3. Bod yn gyfrifol am ymdrin â chwynion yn unol â Pholisi Gorfodi a chanllawiau cysylltiedig y Comisiynydd.

4. Bod yn gyfrifol am gynnal ymchwiliadau statudol ar sail amheuaeth o fethiant a pharatoi adroddiadau cysylltiedig yn unol â Pholisi Gorfodi a gweithdrefnau mabwysiedig y Comisiynydd.

5. Cyflwyno argymhellion at sylw'r Uwch Swyddog Gosod ac Ymchwilio a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio ar benderfyniadau rheoleiddiol i'w cymryd mewn perthynas â chwynion ac ymchwiliadau statudol.

**Polisïau a Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg**

6. Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a/neu addasu polisïau rheoleiddiol i gefnogi gwaith y Comisiynydd o gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

7. Cynghori'r Uwch Swyddog Gosod ac Ymchwilio ar:

   - y graddau mae, ac y dylai sefydliadau fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg
   - effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg, a'r graddau y maent yn parhau i fod yn berthnasol a phriodol i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu gan sefydliadau

   gan amlygu cyfleoedd ar gyfer newidiadau deddfwriaethol fel bo'n berthnasol.

8. Mewn cydweithrediad â'r tîm Cyfathrebu, cyfrannu at waith ymgysylltu'r Comisiynydd mewn perthynas â'r materion isod:

   - rhwystrau mae defnyddwyr yn parhau i wynebu wrth dderbyn gwasanaethau Cymraeg
   - profiadau defnyddwyr o ymgysylltu â phrosesau cwyno
   - pryd a pham y bydd achosion o ymyrraeth â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn digwydd.

**Llinellau Ymholi Allweddol**

9. Cynnal llinellau ymholi allweddol mewn perthynas â materion strategol, thematig neu risg uchel sy'n codi o waith monitro'r Comisiynydd.

**Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg**

10. Bod yn gyfrifol am ymchwilio i honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â gweithdrefnau'r Comisiynydd, gan lunio adroddiadau ar gyfer dyfarniad.

**Tribiwnlys y Gymraeg**

11. Bod yn gyfrifol am baratoi gwaith papur y Comisiynydd ar gyfer achosion (Heriau ac Apelau) Tribiwnlys y Gymraeg, gan gynnwys datganiadau achos a thystiolaeth i gwmnïau cyfreithiol fel bo angen.

---

[1] Safonau'r Gymraeg a Chynlluniau Iaith Gymraeg

**Cyngor a Chymorth Cyfreithiol**

12. Llunio ceisiadau am gyngor cyfreithiol mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 y Mesur.

13. Bod yn gyfrifol am geisiadau am gymorth a chyngor cyfreithiol yn unol ag adrannau 8-10 Mesur y Gymraeg, a chynghori'r Uwch Swyddog Gosod ac Ymchwilio a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio ar benderfyniadau i ddwyn achos neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol.

## Cyfrifoldeb Strategol

14. Cyfrannu at gyflawniad un neu fwy o brosiectau strategol y Comisiynydd mewn perthynas â gweithrediad safonau'r Gymraeg.

## Dyletswyddau cyffredinol

15. Gweithredu'n gyson ac yn amserol yn unol â holl bolisïau a chanllawiau'r Comisiynydd

16. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl y galw ac ar gais y Comisiynydd.

# Manyleb person

### Cymwysterau

| **Hanfodol** |
|---|
| • Gradd, gymhwyster cyfatebol neu brofiad mewn maes perthnasol. |
| **Dymunol** |
| • Tystiolaeth o astudio a/neu ddatblygu parhaus mewn maes perthnasol. |

### Profiad

| **Hanfodol** |
|---|
| • Profiad o ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a'i gyflwyno mewn ffordd ddealladwy i eraill.<br>• Profiad o ymchwilio a chasglu tystiolaeth, gwaith dadansoddi a ffurfio casgliadau rhesymol.<br>• Profiad o lunio adroddiadau yn mynegi safbwynt ar sail deall a dehongli gwaith ymchwil a thystiolaeth. |
| **Dymunol** |
| • Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus.<br>• Profiad o weithio gyda sefydliadau sydd o dan ddyletswydd statudol. |

## Sgiliau a Gwybodaeth

| **Hanfodol** |
|---|
| • Ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br>• Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig).<br>• Y gallu i gydweithio a chyfathrebu gyda staff, y cyhoedd a sefydliadau allanol a sicrhau cydweithrediad effeithiol a phroffesiynol ar bob lefel yn fewnol ac yn allanol.<br>• Y gallu i ennyn parch cydweithwyr, y cyhoedd a sefydliadau allanol.<br>• Y gallu i baratoi a chyflwyno adroddiadau yn broffesiynol ac i safon uchel.<br>• Sgiliau dylanwadu a pherswadio. |
| **Dymunol** |
| • Ymwybyddiaeth neu brofiad o weithredu yn unol ag egwyddorion bywyd cyhoeddus a rheoleiddio effeithiol. |

## Priodoleddau Personol

| **Hanfodol** |
|---|
| • Diddordeb brwd yn yr iaith Gymraeg a materion Cymreig<br>• Diddordeb mewn gwaith rheoleiddio statudol.<br>• Gallu blaenoriaethu gwaith a gweithio i amserlenni tynn.<br>• Gallu hunan ysgogi a gweithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm.<br>• Gallu gwneud penderfyniadau a gweithredu arnynt.<br>• Sgiliau rhyngbersonol cryf mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol<br>• Creadigol, brwdfrydig ac egnïol wrth ganfod dulliau gwreiddiol o weithredu. |

## Amodau a thelerau

| | |
|---|---|
| **Contract** | Parhaol |
| **Oriau Gwaith** | 37 awr yr wythnos. (Heb gynnwys toriadau prydau bwyd). |
| **Cyflog** | £37,112 - £45,379. Penodir ar waelod y raddfa fel rheol. Caiff y cyflog ei dalu'n fisol, fel rheol ar ddiwrnod olaf y mis. |
| **Lleoliad** | Lleolir swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Gweithredir trefniant hybrid o weithio, gyda disgwyliad clir y bydd staff yn mynychu'r swyddfa o leiaf un diwrnod yr wythnos ar ddiwrnod angori penodedig, yn unol â threfniadau'r swyddfa berthnasol. Yn ogystal, anogir staff i weithio ail ddiwrnod yn y swyddfa lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn cefnogi cydweithio, dysgu ar y cyd a chysylltiad tîm. Ystyrir hefyd yr opsiwn i fod yn Weithiwr Cartref os nad ydych yn byw o fewn pellter rhesymol o un o swyddfeydd y Comisiynydd. |
| **Pensiwn** | Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Yn unol â Deddf Pensiynau 2008 mae'n ofynnol i ni eich cofrestru'n awtomatig – os ydych am eithrio eich hunan o'r cynllun pensiwn bydd gofyn i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig. |
| **Oriau hyblyg** | Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu cynllun gweithio oriau hyblyg (fflecsi). |
| **Gwyliau** | Yn flynyddol cewch 31 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol ac 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus gyda chyflog (pro-rata os yn gweithio oriau rhan amser). Yn ogystal cewch 3 diwrnod braint y flwyddyn. |
| **Cyfnod Prawf** | Bydd cyfnod prawf o 3 mis. |